



Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn cynnwys cyngor ar ystyr integreiddio, gofal integredig a gwasanaethau integredig yng nghyd-destun y cynllun ardal. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y canllawiau statudol yn nodi bod y cynlluniau yn canolbwyntio ar wasanaethau integredig, wedi'u cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd yn yr asesiad o'r boblogaeth. Disgwylir i chi gychwyn drwy ystyried ateb integredig i'ch blaenoriaethau. Mae'n hanfodol bwysig deall beth mae hyn yn ei olygu er mwyn paratoi cynlluniau sydd wedi'u targedu'n gywir.

Canllawiau/cyngor

Er gwaethaf esboniadau, strategaethau a datganiadau niferus gan y llywodraeth, cydnabyddir bod sawl diffiniad posibl i'r term "integreiddio" yng nghyd-destun gofal a chymorth, ac felly ei fod yn agored i'w ddehongli. Nid yw gofal integredig yn gysyniad newydd ac mae'n seiliedig ar egwyddor ac arferion cydweithio – sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n haws i'w deall. Mae llawer o wasanaethau integredig wedi'u datblygu ar lefel leol a rhanbarthol eisoes, ac mae'r mentrau rhanbarthol a gefnogir gan y Gronfa Gofal Integredig yn enghraifft amlwg o hyn. Fodd bynnag, mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* wedi rhoi hwb newydd i bwysigrwydd cydweithio drwy bennu rhwymedigaethau statudol i gydweithredu.

Mae angen i bob partner ddeall integreiddio, a rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gytuno ar hynny, er mwyn osgoi dryswch neu anghytuno wrth greu a gweithredu cynlluniau ardal. Gall Datganiadau o Fwriad blaenorol gynnwys dealltwriaeth gyffredin, a diffiniad cyffredin yn ddelfrydol, ledled y rhanbarth, ond dylech roi blaenoriaeth i adolygu hyn a/neu atgyfnerthu'ch safbwynt cyffredin yn gynnar iawn yn y broses o baratoi cynllun. Yn rhesymegol, nid oes modd datblygu cynlluniau integredig heb ddealltwriaeth gyffredin.

Mae profiad ac ymchwil wedi dangos bod llawer o rwystrau i gydweithio ac integreiddio. Ceir dryswch rhwng y cyfrwng a'r diben yn aml, ac mae camau gweithredu i hyrwyddo gwaith integredig yn gallu disodli'r nod o ddarparu gofal a chymorth di-dor. Felly, er enghraifft, cydnabyddir bod greu cyllideb gyfun, cydleoli timau o asiantaethau gwahanol a gwneud penodiadau ar y cyd i gyd yn ddulliau cydnabyddedig o sicrhau integreiddio, ac mae angen eu dathlu. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddant yn cyflawni'r nod eithaf o greu gwasanaeth gwirioneddol ddi-dor.

Yn yr un modd, mae rhai pobl yn credu na ellir sicrhau integreiddio heb newid ac ailstrwythuro sefydliadol sylweddol, ond er gwaethaf geirwiredd y syniad hwn, mae'n enghraifft arall o gyfrwng yn hytrach na diben. Mae'n rhaid i brosesau integreiddio ddigwydd ar lefel strategol a gweithredol.

Wedi dweud hynny i gyd, mae'n bwysig cydnabod bod angen dathlu'r ffaith fod rhai dulliau o gefnogi integreiddio yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus, gan fod hynny'n dipyn o gamp. Hefyd, maent yn helpu i egluro bethau allai fod yn ddull integredig llawn. Gall y canlynol ddisgrifio'r nodweddion posibl:

- ◆ Dull o gynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- ◆ Lle mae partneriaid yn cydweithio i wireddu diben cyffredin a'u bod yn barod i rannu sofraniaeth;
- ◆ Lle mae'r cysyniad o integreiddio yn cael ei ddeall gan bawb ac mae arweinyddiaeth i ddarparu atebion integredig yn cael ei rhannu;
- ◆ Lle mae gofal integredig yn cael ei ddatblygu o'r gwaelod i fyny yn ogystal ag o'r brig i lawr;
- ◆ Lle mae gweithwyr proffesiynol yn deall ac yn ystyriol o bwysau busnes ei gilydd a'r cymhlethdod sy'n rhan o hynny;
- ◆ Lle mae adnoddau'n cael eu cyfuno, timau'n cael eu cydleoli, a gwaith comisiynu'n cael ei wneud ar y cyd;
- ◆ Lle mae'r gweithlu'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg ac effeithiol ac yn agored i ddatblygiadau newydd o ran cymysgedd sgiliau a dirprwyo staff;
- ◆ Lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n eang ac yn agored;
- ◆ Lle mae prosesau llywodraethu ac atebolrwydd yn cael eu rhannu;
- ◆ Lle mae asesiadau o angen a llwybrau gofal yn cael eu datblygu ar y cyd gyda'r nod o gydweithio er budd yr unigolyn.

Nid diben y nodyn cyfarwyddyd hwn yw egluro holl gymhlethdodau darparu gofal integredig, ond yn hytrach atgyfnerthu pwysigrwydd dileu camddealltwriaeth posibl ynglŷn ag ystyr gofal integredig o'r cychwyn. Weithiau, mae'n haws deall beth yw integreiddio wrth ei ystyried o safbwynt rhywun sy'n derbyn gwasanaeth. Mae *'Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth'* Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai sylwadau defnyddiol yn y cyswllt hwn. Mae'n awgrymu y dylai integreiddio olygu'r canlynol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt:

“Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i a phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwr/gofalwyr, yn rhoi rheolaeth i mi, ac yn dod â gwasanaethau at ei gilydd i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi.”

Mewn gwirionedd, mae gofal integredig yn gwbl groes i dderbyn cyfres dameidiog o ymyriadau gan asiantaethau gwahanol, nad ydynt fel pe baent yn cyfathrebu â'i gilydd yn aml iawn, gan arwain at ddryswch, aflonyddu a chanlyniadau gwael.

Mae'r canllawiau ar y Gronfa Gofal Integredig yn cynnwys ymadrodd defnyddiol hefyd i'n helpu i ddeall integreiddio drwy gyfeirio at amcan y gronfa o hyrwyddo gwaith integredig, gyda chynlluniau'n dangos rôl a chyfraniad pob partner perthnasol yn y rhanbarth. Hefyd, mae'n cyfeirio at gynigion sy'n amlygu trefniadau darpariaeth leol effeithiol sy'n seiliedig ar drafodaethau ag Adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau eraill o'r Trydydd Sector. Dylai trefniadau darpariaeth effeithiol ddefnyddio partneriaethau sydd eisoes ar waith, a'u cryfhau os oes modd, a chreu partneriaethau newydd.

Mae gofal integredig yn berthnasol i bobl o bob oed, ac nid oes terfyn ar nifer yr asiantaethau sy'n helpu i roi dull integredig o ofal a chymorth ar waith. Dylai cynlluniau adlewyrchu hyn drwy beidio â chanolbwyntio'n unig ar ofal sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Dylai cyfraniadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol, ac adrannau tai ac addysg er enghraifft, gael eu cynnwys mewn cynlluniau ardal, felly hefyd gwaith cydgynhyrchiol gyda gofalwyr.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ A ydych chi'n deall eich cyfrifoldebau statudol i hyrwyddo dull gweithredu integredig ym maes gofal a chymorth drwy gydweithredu rhwng sectorau ac asiantaethau partner?
- ◆ A oes gennych chi ddealltwriaeth a diffiniad gwaith cyffredin o integreiddio a gofal integredig sy'n sylfaen i'ch cynlluniau ardal?
- ◆ A yw'r diffiniad hwn yn adlewyrchu safbwynt y rhai sydd angen gofal a chymorth?
- ◆ A ydych chi'n deall y gwahaniaeth rhwng cyfrwng a diben wrth sicrhau atebion integredig?



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government